# Crynodeb o Fil

## Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Hydref 2014

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Crynodeb o Fil, Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Hydref 2014

Karen Whitfield, Helen Jones ac Alys Thomas

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @SeneddYmchwil
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/1962
Rhif dogfen: 14/043

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ... 1**

**2. Datblygu Polisi ... 2**

**3. Amcanion Polisi'r Bil ... 4**

**4. Y Bil ... 5**

4.1. Rhan 1 - Cyflwyniad a Chysyniadau Allweddol ... 5
4.2. Rhan 2 - Gwella llesiant ... 5
4.3. Rhan 3 - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru ... 6
4.4. Rhan 4 - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ... 7
4.5. Rhan 5 - Darpariaethau terfynol ... 7

**5. Polisi cyfredol sy'n berthnasol ... 8**

5.1. Polisi Datblygu Cynaliadwy ... 8
5.2. Cynllunio Cymunedol Integredig ... 8
5.3. Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ... 9

**6. Deddfwriaeth Allweddol ... 10**

**7. Integreiddio â deddfwriaeth arfaethedig allweddol arall ... 11**

**8. Goblygiadau ariannol y Bil ... 12**

**9. Ymateb i'r Bil ... 14**

# Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno**: 7 Gorffennaf 2014 **Aelod cyfrifol:** Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

**Y Pwyllgor sy'n craffu ar y Bil ar Gam 1**: Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**Dyddiad cau cyflwyno adroddiad Cam 1 y Pwyllgor**: 21 Tachwedd 2014

Prif ddibenion y Bil yw:

- pennu fframwaith, ac o fewn y fframwaith hwnnw bydd awdurdodau cyhoeddus penodol Cymru yn ceisio sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr **egwyddor datblygu cynaliadwy**),
- rhoi **nodau llesiant** ar waith y bydd yr awdurdodau hynny yn ceisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol,
- nodi sut y disgwylir i'r awdurdodau hynny ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant,
- rhoi **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol** ar sail statudol ac, wrth wneud hynny, symleiddio gofynion cyfredol o ran gwaith cynllunio cymunedol integredig,
- sefydlu **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru** i weithredu fel eiriolwr dros genedlaethau'r dyfodol a fydd yn cynghori, yn cefnogi ac yn monitro awdurdodau cyhoeddus Cymru wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

## 2. Datblygu Polisi

Yn ei *Rhaglen Lywodraethu,* ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'Ddeddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.' Ymrwymodd hefyd i 'Chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.'

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad ymgysylltu ym mis Rhagfyr 2011 i ymchwilio i safbwyntiau rhanddeiliaid ar roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig i bennu datblygiad cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol, a hefyd ar greu corff datblygu cynaliadwy annibynnol statudol i Gymru. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y digwyddiad hwn wedi tynnu sylw at y gefnogaeth i'r cynnig i ddeddfu, er na chafwyd consenswс ar y dull gweithredu i'w fabwysiadu.

Ym mis Ionawr 2012 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid cynllunio, ***Cydamcanu – Cydymdrechu***, gan geisio barn ar egwyddor cynllunio integredig a rôl Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae'r canllawiau yn *Cydamcanu - Cydymdrechu* yn annog Byrddau Gwasanaethau Lleol i integreiddio nifer o'u cynlluniau statudol yn un cynllun integredig.

Ym mis Mai 2012 lansiwyd ymgynghoriad 10 wythnos o hyd gan Lywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy***, a geisiodd farn ar amrywiaeth o gynigion a materion mewn perthynas â datblygu'r dull gweithredu o ymdrin â datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2012 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei ***Phapur Gwyn: Cymru Gynaliadwy: Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell***. Ceisiodd y Papur Gwyn farn ar y cynigion canlynol:

- dyletswydd newydd i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus yng Nghymru;
- creu corff datblygu cynaliadwy;
- y cynnig i roi Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynlluniau integredig ar sail statudol;
- y cynnig i gyflwyno a gweithredu'r ddyletswydd yn raddol, gan gynnwys yr amseru ar gyfer creu'r corff datblygu cynaliadwy annibynnol;
- gwella'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Mae datblygiad y Bil wedi cael ei lywio hefyd gan **Grŵp Cyfeirio a Chynghori Bil Cenedlaethau'r Dyfodol**, sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Ar 18 Chwefror 2014 lansiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gynllun peilot y Sgwrs Genedlaethol ar **'y Gymru a**

**Garem erbyn 2050'** er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd yng Nghymru fynegi eu barn ar y Gymru a garent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cafodd yr **adroddiad interim ar gynllun peilot y Sgwrs Genedlaethol**, yn crynhoi'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r sgwrs, ei gyhoeddi ar yr un diwrnod â'r Bil.

## 3. Amcanion Polisi'r Bil

Bwriad polisi datganedig y Bil yw gweithredu ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd llywodraeth a chyrff cyhoeddus, a'i ymrwymiadau yn ymwneud â'r gwahaniaeth y mae am ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru o ran gostwng lefelau tlodi, gwella iechyd, cydraddoldeb, diogelwch, cydlyniant, ffyniant, diwylliant, treftadaeth a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil yn:

- **Cryfhau'r systemau llywodraethu presennol** drwy ganolbwyntio'n glir ar yr hyn y mae awdurdodau cyhoeddus yn ceisio ei gyflawni drwy gyfres o nodau llesiant cenedlaethol statudol, a gaiff eu gwerthuso a'u mesur yn erbyn dangosyddion cenedlaethol;
- **Sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy mewn awdurdodau cyhoeddus penodol** drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt bennu eu hamcanion llesiant eu hunain sy'n helpu i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol;
- **Cefnogi'r newid a hyrwyddo buddiannau Cenedlaethau'r Dyfodol drwy sefydlu** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru;
- **Diwygio gwaith cynllunio cymunedol integredig** drwy ei roi ar sail statudol a sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol, gyda'r bwriad o leihau dyblygu a symleiddio nifer y cynlluniau a'r strategaethau statudol y bydd angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio eu llunio.

# 4. Y Bil

## *4.1. Rhan 1 - Cyflwyniad a Chysyniadau Allweddol*

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r prif ddarpariaethau ac yn nodi diben a chysyniadau allweddol y Bil, gan gynnwys:

- **Diben y Bil**: sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol;
- **Nod cyrff cyhoeddus i wella llesiant**: nod cyrff cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy (y "nod cyffredin");
- **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** - ‘sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'

Mae Rhan 1 hefyd yn rhestru'r sefydliadau i'w diffinio fel cyrff cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf hon.

## *4.2. Rhan 2 - Gwella llesiant*

Mae'r rhan hon yn nodi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol ac yn rhoi disgrifiad ar gyfer pob un:

- Cymru lewyrchus Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy’n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleodd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth fedrus ac addysgedig;
- **Cymru gydnerth** - amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid;
- **Cymru iachach** - cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol;
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** - cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau;
- **Cymru o gymunedau cydlynus** - cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg, ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Gall Gweinidogion Cymru ychwanegu neu ddileu nodau, neu ddiwygio teitlau'r nodau neu'r disgrifyddion, drwy reoliadau.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddilyn **y 'nod cyffredin' o wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru** yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy gael cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i gyflawni'r nodau llesiant drwy gyflawni'r amcanion llesiant a bennir ganddynt yn unol â dyletswydd datblygu cynaliadwy. Caiff cynnydd ei fesur a'i werthuso drwy gyfeirio at gyfres o ddangosyddion cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn defnyddio'r dangosyddion hyn i gyhoeddi 'adroddiad llesiant blynyddol' ar gynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'n ofynnol hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi 'adroddiad tueddiadau'r dyfodol' o fewn 12 mis i ddyddiad etholiad cyffredinol. Dylai hwn gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol y dyfodol yn llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Rhoddir dyletswydd (adran 7) ar **gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi eu hamcanion llesiant eu hunain**, a ddatblygir yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a gynllunnir i sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y nodau cenedlaethol. Nodir gofynion ar gyfer pennu ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion.

## *4.3. Rhan 3 - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru*

Mae Rhan 3 yn creu **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru**, i'w benodi gan Weinidogion Cymru. Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw 'to promote the sustainable development principle' a 'to monitor and assess the extent to which well-being objectives set by public bodies are met.'

Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau adrodd y Comisiynydd, gan gynnwys y gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei raglen waith ei hun a chynnydd cyrff cyhoeddus o ran cyflawni eu hamcanion llesiant, a llunio **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd**. Gall y Comisiynydd wneud argymhellion, ac mae'r rhan hon hefyd yn nodi dyletswydd i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y camau gweithredu a nodir mewn argymhellion a wnaed iddynt gan y Comisiynydd, a chyhoeddi eu hymateb i unrhyw argymhellion a wnaed. Caiff y Comisiynydd ei gefnogi gan banel cynghori, a'i ddiben fydd rhoi cyngor i'r Comisiynydd ar ymarfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

Ceir darpariaeth bellach mewn perthynas â'r Comisiynydd yn atodlen 2.

### *4.4. Rhan 4 - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae'r rhan hon **yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ar gyfer pob awdurdod lleol** ac yn nodi'r aelodau, y cyfranogwyr gwadd a phartneriaid eraill. Nod pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ('y nod lleol’).

Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu **asesiad o lesiant lleol a chynllun llesiant lleol**, sy'n cynnwys amcanion a gynlluniwyd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun hwn. Mae'r rhan hon o'r Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac adolygu cynlluniau llesiant lleol, yn ogystal â dull adrodd. Mae hefyd yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag uno, cydweithredu, dangosyddion perfformiad a safonau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ceir darpariaeth bellach mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn atodlenni 4 a 5.

### *4.5. Rhan 5 - Darpariaethau terfynol*

Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn gan gynnwys y pŵer i ddiwygio'r diffiniad o 'gorff cyhoeddus' yn Adran 51(1) ac 'i wneud darpariaeth ganlyniadol etc', gan ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol Cymru a'r DU drwy reoliadau i weithredu'r Bil yn llawn, a phŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil.

## 5. Polisi cyfredol sy'n berthnasol

### *5.1. Polisi Datblygu Cynaliadwy*

Mae adran 79 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ('Deddf 2006'), yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu cynllun datblygu cynaliadwy yn nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Bu tri chynllun datblygu cynaliadwy ers 1998. Y cynllun cyfredol yw ***Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru***, 2009.

Mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y gweithredwyd cynigion y cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac, yn ystod y flwyddyn yn dilyn etholiad cyffredinol, i gyhoeddi adroddiad yn asesu pa mor effeithiol fu'r cynigion wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Cyhoeddwyd yr **adroddiad blynyddol** diweddaraf ar 23 Mehefin 2014. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o **ddangosyddion datblygu cynaliadwy** a ddefnyddir ganddi i fesur cynnydd o ran y cynllun datblygu cynaliadwy.

### *5.2. Cynllunio Cymunedol Integredig*

Mae gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ddyletswyddau niferus i lunio cynlluniau a strategaethau y bwriedir iddynt wella llesiant pobl yn eu hardal. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cydnabuwyd bod llawer o'r cynlluniau a'r strategaethau hyn yn dangos gorgyffwrdd a dyblygu, ac mae'r blaenoriaethau croes niferus a'r strwythurau partneriaeth helaeth a ddefnyddiwyd i'w cyflawni wedi arwain at ormod o gymhlethdod a lleihad mewn effeithlonrwydd gweithredol ymhlith cyrff cyhoeddus.

Rhwng 2007 a 2008, mewn ymateb i **Adolygiad Beecham** 2006, sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob rhan o Gymru gyda'r nod o fynd i'r afael â materion trawsbynciol mewn ffordd fwy integredig. Yn 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid cynllunio, *Cydamcanu – Cydymdrechu*, gan annog nifer o gynlluniau statudol i integreiddio yn 'gynlluniau integredig sengl'. Mae'r canllawiau yn nodi mai bwriad y cynlluniau hyn oedd

> ddisgrifio'r weledigaeth hirdymor gyffredinol ar gyferdatblygu cymunedau'n gynaliadwy yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Er mwyn deall ynewid tebygol yn y galw am wasanaethau, dylai ystyried newidiadau demograffig, y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, effaith y newid yn yr hinsawdd a newid mewn ffocws a buddsoddi o fesurau adfer i fesurau ataliol. (tudalen 16)

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn bodoli ar hyn o bryd ym mhob ardal Awdurdod Lleol fel partneriaethau gwirfoddol. Lluniwyd y cynlluniau integredig unigol sengl ganddynt yn unol â'r cyngor yn ***Cydamcanu - Cydymdrechu***, a mabwysiadwyd bob cynllun erbyn mis Ebrill 2013.

Yn adroddiad y **Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** (Comisiwn Williams) ym mis Ionawr 2014, nodwyd bod angen i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gael eu symleiddio'n sylweddol a'u gwneud yn fwy effeithiol. Ar 8 Gorffennaf 2014, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad mewn Cyfarfod Llawn yn ymateb i adroddiad Comisiwn Williams, a gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddatganiad ynglŷn â chyhoeddi **Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol** a oedd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol.

### *5.3. Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy*

Yn dilyn cau Comisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU gyfan yn 2011, crëwyd swydd anstatudol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Cefnogwyd y Comisiynydd gan Cynnal Cymru ers mis Mawrth 2012. Mae **gwefan Cynnal Cymru** yn priodoli'r rolau canlynol i'r Comisiynydd:

- Rhoi arweiniad ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru;
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol ym mhob sefydliad yng Nghymru, a hyrwyddo mewnosod datblygu cynaliadwy i waith sectorau a chymunedau yng Nghymru, yn unol â'r ymrwymiad polisi yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned;
- Cynnull rhanddeiliaid sy'n cynrychioli sectorau neu faterion perthnasol, a datblygu partneriaethau i ymateb i faterion anodd ar sail 'cynghrair o'r rhai sy'n barod i wneud';
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar y polisïau a'r dulliau y mae eu hangen i hyrwyddo a gweithredu datblygu cynaliadwy;
- Darparu cyngor priodol i Lywodraeth Cymru ar y trefniadau tymor hwy ar gyfer hyrwyddo a chynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Mae swydd bresennol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, a chefnogaeth i'r swydd hon gan Cynnal Cymru, yn ei blwyddyn lawn olaf, a disgwylir i swydd gysgodol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy gael ei sefydlu erbyn 1af Ebrill 2015, ac i'r Comisiynydd newydd gael ei benodi erbyn mis Rhagfyr 2015, yn ôl gwefan **Cynnal Cymru**.

## 6. Deddfwriaeth Allweddol

Nododd Atodiad A o *Cydamcanu - Cydymdrechu* nifer o ddyletswyddau cynllunio statudol y dylid eu cyflawni drwy'r cynlluniau integredig sengl. Bydd cynlluniau llesiant a gyflwynir o dan y Bil yn ymgorffori'r dyletswyddau hyn, ac mae'r Bil yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth berthnasol i gyflawni hyn. Rhestrir diwygiadau a diddymiadau canlyniadol allweddol (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Esboniadol) isod:

- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2010** – mewn perthynas â chynllunio cymunedol/strategaeth gymunedol;
- **Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010** - mewn perthynas â Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc a gwybodaeth am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae;
- **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**- mewn perthynas â chynlluniau ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol;
- **Deddf Plant 2004** – mewn perthynas â'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol Cymru i gydweithredu i wella llesiant plant mewn ardal awdurdod lleol a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc;
- **Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006** - mewn perthynas â'r ddyletswydd ar bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i gydbaratoi a gweithredu strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant.

Mae Atodlen 4 i'r Bil yn cynnwys rhestr lawn o ddiwygiadau a diddymiadau o ganlyniad i adran 45 o'r Bil.

Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgorffori nifer o brosesau asesu statudol, a'u hystyried wrth baratoi asesiadau o lesiant lleol, gan gynnwys: adolygiadau o ddigonolrwydd addysg feithrin o dan ***Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998***; asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant a wnaed o ganlyniad i reoliadau a wnaed o dan ***Ddeddf Gofal Plant 2006***; asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae o dan ***Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010***; asesiadau o anghenion ar gyfer gofal a chymorth, cefnogaeth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan ***Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***; ac asesiadau a baratowyd o dan ***Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998***.

## 7. Integreiddio â deddfwriaeth arfaethedig allweddol arall

Mae Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn cynnig cyflwyno cynlluniau rheoli adnoddau naturiol statudol cenedlaethol ac ar sail ardal. Bydd y cynllun cenedlaethol yn nodi amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol tra bydd cynlluniau ardal yn nodi, ar sail ofodol, sut y caiff y blaenoriaethau cenedlaethol hyn eu cyflawni. Fel rhan o lunio ac adolygu'r cynlluniau hyn byddai disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gasglu tystiolaeth a chyflwyno adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Noda'r Papur Gwyn hefyd y caiff y polisi rheoli adnoddau naturiol ei gyhoeddi bob pum mlynedd, 'i gyd-fynd â phennu'r canlyniadau cenedlaethol trwy Fil Cenedlaethau'r Dyfodol' (tudalen 27). Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn awgrymu y bydd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu'r cyswllt â'r Dull Rheoli Adnoddau Naturiol ac yn cryfhau'r agweddau amgylcheddol ar y cynlluniau llesiant.

Mae'r ddogfen ymgynghorol **Cynllunio cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru**, a ategodd **Fil Cynllunio (Cymru) drafft**, yn nodi y bydd y system gynllunio yn helpu i gyflawni'r nodau cenedlaethol a bennir gan y Bil hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil hwn yn nodi y bydd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i gysylltu cynlluniau llesiant lleol yn agosach â chynlluniau datblygu lleol. Mae Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn gweld cynlluniau datblygu lleol fel dehongliad gofodol datblygu cynaliadwy ac yn nodi y dylent gysylltu'n agos â chynlluniau integredig sengl (cynlluniau llesiant lleol).

Mae Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, ***Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig***, yn gosod *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* fel darn cyffredinol o ddeddfwriaeth sydd â'r gallu i hyrwyddo dull 'Iechyd ym mhob Polisi'. Mae'n cyfeirio at greu cynlluniau llesiant lleol fel ffactorau ysgogi pwysig i wella cynllunio cymunedol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, ac yn credu bod cynnwys iechyd yn y nodau cenedlaethol yn elfen allweddol o Gymru gynaliadwy.

Mae'r cynigion a nodir yn ***Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol***, yn cyfeirio'n helaeth at ddarpariaethau'r Bil hwn o ran Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynlluniau llesiant lleol, sydd â'r bwriad, yn ôl y Papur Gwyn, o wella cynllunio integredig, tryloywder ac atebolrwydd yn yr hirdymor. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig dau Fil: un ym mis Ionawr 2015 yn rhoi pwerau fel y gellir uno cwmnïau, a'r ail ar ôl etholiad mis Mai 2016 i weithredu'r hyn a ddisgrifir gan Lywodraeth Cymru fel 'y brif raglen uno a diwygio'.

I gael rhagor o wybodaeth am y Biliau arfaethedig hyn, gweler papur y Gwasanaeth Ymchwil ar **Ddatganiad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**

## 8. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) manwl sy'n nodi costau sawl opsiwn a ystyrir o dan bob un o'r pedwar prif fwriad polisi.

Esbonia'r Memorandwm Esboniadol fod y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy cyfredol yn ei swydd tan fis Mehefin 2015 a bod Cynnal Cymru wedi'i gaffael ar hyn o bryd i roi cefnogaeth a chymorth i'r Comisiynydd presennol rhwng 2012-13 a 2014-15.

Caiff holl gostau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Bil hwn eu talu o gyllideb adrannol Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb o fewn portffolio Adnoddau Naturiol.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r costau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i weithredu'r ddeddfwriaeth. Nodir manylion pellach y costau sy'n gysylltiedig â phob elfen o'r Bil yn yr adrannau o dan y tabl.

Dengys Tabl 1 **fod costau ychwanegol yr opsiynau a ffefrir yn gwneud cyfanswm o £5m yn ystod pum mlynedd gyntaf y Bil**.

**Tabl 1: Tabl cryno o gostau ychwanegol y ddeddfwriaeth o dan bob bwriad polisi; 2015-16 i 2019-20**

£

| Bwriad y polisi | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 a 2) Gwella trefniadau llywodraethu a chynnwys datblygu cynaliadwy o fewn awdurdodau cyhoeddus penodol | 158,200 | 205,100 | 85,900 | 107,900 | 107,900 | **665,000** |
| 3) Sefydlu Comisiynydd annibynnol ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol | 797,470 | 745,101 | 745,101 | 745,101 | 745,101 | **3,777,874** |
| 4)Diwygio trefniadau cynllunio cymunedol integredig | 35,500 | 142,100 | 131,600 | 131,600 | 131,600 | **572,400** |
| **Cyfanswm cost ychwanegol y Bil** | **991,170** | **1,092,301** | **962,601** | **984,601** | **984,601** | **5,015,274** |

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Memorandwm Esboniadol – Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*, *7 Gorffennaf 2014*

Mae **costau pontio yn £332,000 ym mlynyddoedd 2015-16 a 2016-17** ac yn cynnwys costau i Swyddfa Archwilio Cymru o £244,000 ar gyfer hyfforddiant proffesiynol a datblygu (bwriadau polisi 1 a 2), £52,000 i Lywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a delio â threfniadau trosiannol (bwriad polisi 3) a £36,000 i Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ar y camau gweithredu cychwynnol (bwriad polisi 4).

Mae **costau rheolaidd yn £4.7m** ac mae £3.6m o'r swm hwn yn mynd i Lywodraeth Cymru, £537,000 i BGCau, £520,000 i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC)/Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a chostau cyfle o £68,000 i'r sefydliadau hynny a fydd ag aelodau ar banel cynghori'r Comisiynydd.

**Bwriad polisi 3 yw'r un drutaf gan ei fod yn cynnwys costau recriwtio, staff a swyddfeydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**. Noda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod costau bodloni gofynion y Bil i awdurdodau cyhoeddus yn debygol o aros yr un peth ac y'u telir o fewn adnoddau presennol ar gyfer pennu amcanion corfforaethol a chyflwyno adroddiadau yn eu herbyn (bwriadau polisi 1 a 2). O dan fwriad polisi 4 nodir costau ychwanegol o £537,000 ar gyfer BGCau, sy'n cynnwys costau ychwanegol ar gyfer yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Awdurdod Tân ac Achub a Cyfoeth Naturiol Cymru o fynychu cyfarfodydd, costau paratoi asesiadau llesiant a chostau craffu ychwanegol.

**Mae'r Asesiad o Effaith Rheoleiddiol yn trafod buddiannau pob un o'r bwriadau polisi o fewn y Bil, ond nid yw'n gallu eu mesur.** O dan bob opsiwn a ffefrir noda, 'Although un-quantified, these benefits are considered to be sufficient to justify the additional cost'

## 9. Ymateb i'r Bil

Ar 8 Gorffennaf 2014 gwnaeth y Gweinidog Cyfrifol ar y pryd, Jeff Cuthbert AC, ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn:

> Ddoe, gosodais Fil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth, i fwy o raddau nag unrhyw un arall, yn ganolog i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hon ac, os caiff ei basio, bydd yn un o ychydig o gyfreithiau o'r fath mewn unrhyw le yn y byd.
>
> Hwn yw'r cam mawr nesaf ar ein taith ddatganoli ar ddatblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae'n ymgorffori mewn deddfwriaeth ein hymrwymiad ar y cyd yn ystod 15 mlynedd o ddatganoli i sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth yr ydym ni a'r sector cyhoeddus ehangach yn ei wneud. Mae'r Bil yn ganlyniad i waith sylweddol gan lawer o bobl o wahanol safbwyntiau gwleidyddol, ond wrth ei wraidd mae'n cynrychioli ein hymrwymiad i drosglwyddo gwell ansawdd bywyd i'n plant a'n hwyrion. Ni allai unrhyw beth fod yn bwysicach.

Aeth yn ei flaen i ddweud:

> Yn y bôn, mae gan y Bil dri nod allweddol y rhoddaf sylw iddynt heddiw. Yn gyntaf, mae'r Bil yn rhoi ymdeimlad newydd o bwrpas i wasanaethau cyhoeddus i gynllunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'n mynnu bod pob un ohonom yn meddwl yn wahanol ac yn cynllunio dros gyfnod hwy. Mae'n ceisio rhoi terfyn ar arfer cyrff cyhoeddus o weithio'n annibynnol ar ei gilydd ac yn mynnu ein bod yn chwilio am atebion ar y cyd. Yn fwyaf sylfaenol, mae'n mynnu ein bod yn cynllunio er mwyn gallu adnabod heriau cyn iddynt ymddangos a manteisio ar y cyfleoedd a gawn fel cenedl.
>
> Secondly, the Bill embodies international values of sustainable development and wellbeing. Yn ail, mae'r Bil yn ymgorffori gwerthoedd rhyngwladol datblygu cynaliadwy a lles. Mae'n ymgorffori diffiniad Brundtland o ddatblygu cynaliadwy fel datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae Cymru ar flaen y gad mewn deialog ryngwladol sy'n ceisio cynnwys pobl ledled y byd mewn trafodaeth am y byd yr hoffent ei weld yn 2050. Mae Cymru, unwaith eto, yn arwain y ffordd. Nid oes unrhyw genedl arall yn cymryd y camau beiddgar hyn i ddeddfu ar gyfer nodau lles hirdymor.
>
> Yn drydydd, bwriedir i'r Bil i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau. Yn fy mhortffolio i, mae ymyrryd yn gynnar yn ganolog i'n huchelgais i drechu tlodi. Nid oes ffordd well o atal tlodi na helpu pobl i gael gwaith drwy eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Dywedodd Russell George AC, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig:

> I edrych ar rai o'r agweddau allweddol ar bensaernïaeth y Bil, roedd gosod targedau ar wyneb y Bil yn elfen bwysig, ac rwyf yn falch eich bod wedi gwrando ar bryderon amrywiaeth eang o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol ynglŷn â'r ail darged bioamrywiaeth, ac ar ymgyrchwyr dros yr iaith Gymraeg ynglŷn â chryfhau'r nod olaf.

Fodd bynnag, dywedodd hefyd:

O ran creu swyddogaeth comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol, rhaid imi ddweud fy mod yn dal yn eithaf amheus ynghylch creu comisiynydd arall. Rwyf yn meddwl bod perygl y bydd gennym doreth o gomisiynwyr yng Nghymru, sydd ynddo'i hun yn anghynaladwy.

Dywedodd Llyr Gruffydd AC ar ran Plaid Cymru:

Mae'n amlwg bod angen gweledigaeth gref a chlir ar ddatblygu cynaliadwy a rôl y sector cyhoeddus i weithio tuag at gyflawni hynny yng Nghymru. Er mwyn cyrraedd lle rydym i gyd am gyrraedd, mae angen newid diwylliant llwyr. Mae angen newid yn y 'mindset' o ran sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu yng Nghymru a sut rydym ni fel trigolion yn byw ein bywydau. Nid yw Deddf ar ei phen ei hun yn mynd i gyflawni hynny, ond yn sicr mae gan ddeddfwriaeth rôl i'w chwarae. Felly, rwy'n croesawu bwriad y Llywodraeth i ddeddfu yn y maes hwn, ac rwy'n awyddus, fel mae eraill wedi mynegi, i wneud i hynny weithio.

Fodd bynnag, mae rhywun yn poeni, wrth edrych ar yr hyn rydym wedi'i gael, bod y Llywodraeth yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n llawer mwy cymhleth nag y byddai angen iddo fod o reidrwydd. Rwy'n edrych ar y nodau. Nid oes dim y gellir anghytuno ag ef yn y nodau hynny. A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod perygl yn y nodau ein bod yn ceisio bod yn bopeth i bawb ac, o ganlyniad, bod risg nad yw'r hyn rydym am ei gyflawni yn cael ei wireddu?

Gan siarad ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, dywedodd William Powell AC:

It is clear to me, as you have already said, that it would be a strange person indeed who would have any major issue with the main substance of this Bill. However, as is often the case with this form of portmanteau legislation, we do need to ensure that the legislative rhetoric of the goals does not come at the expense of a tangible regulatory framework, and indeed meaningful enforcement where necessary. Further to this, we do need to isolate and strengthen what the unique selling point of this legislation is actually going to be. In order for it to be worth while, it needs, as colleagues have said, to deliver a measurable contribution that could not have been delivered by other means. I think that this case is still to be made, in fact, and it is what I plan to be working on with colleagues as we enter the scrutiny phase of this important Bill.

Dywedodd Mick Antoniw AC:

Diolch, Lywydd. Weinidog, rwyf yn cydweld yn llawn â dyheadau a bwriadau'r Bil, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle yr ydych wedi'i roi yn ystod yr wythnosau diwethaf i gymryd rhan yn y gwaith o lunio agweddau ar y Bil. Ar hyn o bryd, byddwn yn dweud bod nifer o agweddau arno nad ydynt, yn fy marn i, yn ddigon cryf ac nad ydynt yn adlewyrchiad digon cryf o ddiben y Bil os oes arnom wir eisiau iddo gyflawni'r hyn a allai fod yn ddarn o ddeddfwriaeth radical.

Rwyf am ganolbwyntio ar dri phwynt. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r egwyddorion a amlinellir. Mae angen inni wneud y rhain yn llawer mwy penodol; er enghraifft, dylai Cymru ffyniannus, yn fy marn i, fod yn Gymru ffyniannus a chymdeithasol gyfiawn. Dylai hefyd gynnwys mater cyfiawnder cymdeithasol. Fel y gwyddoch, rwyf wedi drafftio cynigion ynglŷn â phob un o'r egwyddorion, ond rwyf yn meddwl, fel ag y maent, eu bod yn llawer rhy aneglur a llac. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y gellir eu gwneud yn effeithiol gydag ychydig o fireinio.

Mae'r pwynt arall yn ymwneud â'r drafftio, yn enwedig adran 20(1) ynglŷn â chyrff cyhoeddus a'u hymateb i argymhellion gan y comisiynydd. Unwaith eto, mae'r rhain yn rhy wan. Er

enghraifft, mae adran 20(1) yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn yr argymhellion, ond, yn ôl adran 20(1)(b), os yw'n penderfynu gweithredu mewn ffordd arall, wrth gwrs, caiff wneud hynny. Mae angen inni wneud yn siŵr bod hynny'n cael ei dynhau.

Y pwynt arall y mae angen inni ei dynhau'n sylweddol iawn yw pwerau gwirioneddol y comisiynydd, oherwydd nid wyf yn credu eu bod yn ddigon clir. Mae arnom angen rhywfaint o bŵer ymyrryd ymysg pwerau'r comisiynydd. Yn olaf, rwyf yn credu bod pwynt ynglŷn â'r panel ymgynghorol y dylai fod â llawer mwy o bwyslais.

Dywedodd Antoinette Sandbach AC:

Weinidog, mae gennyf bryderon gwirioneddol am natur fframwaith y Bil. Hwn yw'r Cynulliad cyntaf i gael pŵer deddfu llawn, ac mae'n anffodus iawn bod Biliau sy'n dod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ceisio cymryd swyddogaethau craffu oddi ar Aelodau'r Cynulliad a chrynodi pŵer yn nwylo Gweinidogion Cymru. Hoffwn ichi edrych ar y Bil a gwirio nad yw hynny'n digwydd, a bod y comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad ac nid i Lywodraeth Cymru—wedi'r cyfan, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rwyf yn meddwl bod y diffyg democrataidd y soniodd William Powell amdano'n gynharach yn bwynt pwysig, oherwydd byddwch, i bob pwrpas, yn creu cwango arall, a byddwch yn cymryd y broses o wneud penderfyniadau oddi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Credaf, pan eich bod yn sôn am genedlaethau'r dyfodol, dan yr amgylchiadau hynny, mai'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai benodi unrhyw gomisiynydd yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Rwyf yn edrych ymlaen at dderbyn eich cynnig i gwrdd â Gweinidogion fel y gallaf fynegi fy mhryderon ynghylch y ffordd y mae'r Bil wedi ei ddrafftio. Ni fydd Bil wedi'i ddrafftio'n wael, sy'n crynodi pwerau yn nwylo Gweinidogion, sydd yna'n cael gwared ar graffu o'r lle hwn, yn gwasanaethu cenedlaethau Cymru yn y dyfodol.

Dywedodd Anne Meikle, Cadeirydd y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy, a grŵp o fwy nag 20 o sefydliadau:

The Bill published today is another step in the right direction, but the proposals are complex and we need to be sure they will make public bodies give far greater weight to meeting the needs of our children and grandchildren. Too many political decisions these days give priority to short term gain at the expense of the future.

If this law is to be effective in future-proofing our country, it needs to set clearer goals, which take account of future challenges and give more priority to the long term consequences of today's decisions.

We need to be prepared for a world where there is fierce competition for resources such as energy and timber, and recognise that decisions we make in Wales have a direct impact on people and nature globally."

It's notable that today's interim report on 'The Wales We Want' highlights climate change as a key issue facing future generations. Yet as it stands, the bill falls short in terms of changing the way the public sector works to tackle such big, long term issues.

On a more positive note, we are pleased that the Government has responded to concerns about a lack of a goal relating to the Welsh environment. As an Alliance, we now want to

work with all parties to develop legislation that will give future generations the life they deserve.

Dywedodd Oxfam:

The Bill as it stands is a step forward for sustainable development in Wales; however we feel there is room for improvement.

The two main pillars for Oxfam Cymru's work are climate change and inequality and the two are inevitably interlinked. We believe that you cannot effectively address one without the other.

In light of this, we feel the bill does not go far enough to recognise Wales' impact on the rest of the world by firmly addressing the issue of climate change and Wales' contribution to a warming planet.

Climate change does not recognise geographical or political borders and what happens in Wales impacts on the wider world as much as what happens internationally impacts on Wales. We are pleased that the Welsh Government has responded to concerns about a lack of a goal relating to the welsh environment, but we feel they could do more.

Research indicates that the world's poorest people face the greatest risks from climate change. In Wales we have significant inequalities in income and wealth, with figures released from the UK government last week, revealing 24% of households in Wales living below the average income after housing costs. In light of this, the existing and potential impacts of climate change on people in poverty in Wales, as well as globally are not insignificant.

Failure to embed international scope within the Bill dilutes the meaning and potential of sustainable development as a driving force for positive change and does not provide clear leadership for the rest of the public sector.

The Well-being of Future Generations Bill can help address inequalities at home and abroad but more needs to be done to embed sustainable development into decisions made by public bodies.

We welcome the appointment of a Commissioner for Future Generations, but feel the significance of this post is diminished if it has no more power than to write reports and is appointed by the Welsh Government as opposed to the National Assembly. Appointment by the Assembly would ensure the Commissioners' independence and their ability to hold the Welsh Government and public sector to account.